Healthcare Inspectorate Wales | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Clinig Deintyddol Parc Trelai

26 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-6450-6
© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
   - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13
5. Y Camau Nesaf ........ 16
6. Methodoleg ........ 17
   - Atodiad A ........ 19

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad yng Nghlinig Deintyddol Parc Trelai, 122 Heol Orllewinol y Bontfaen, Trelai, Caerdydd, CF5 5BT ar 26 Ionawr 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Clinig Deintyddol Parc Trelai yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a chanllawiau.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Clinig Deintyddol Parc Trelai yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Trelai yng Nghaerdydd. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae Clinig Deintyddol Parc Trelai yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG, er bod llawer mwy o bwyslais ar ddarparu gofal a thriniaeth y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys prif ddeintydd, dau ddeintydd arall (un yw'r ymarferydd deintyddol galwedigaethol presennol) a phum nyrs ddeintyddol (mae gan un ohonynt swydd gyfun fel nyrs ddeintyddol/derbynnydd/rheolwr y practis).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

## 3. Crynodeb

Gwnaethom dderbyn nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch y gofal a’r driniaeth ddeintyddol a ddarperir yn y practis, gan gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC. Gwelsom hefyd fod holl aelodau'r tîm deintyddol yn trin cleifion, a'i gilydd, gyda pharch a chynhesrwydd.

Serch hynny, gwnaethom nodi'r angen am welliannau i broses gwyno'r gwasanaeth, a'r angen i ddatblygu system ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion mewn modd rhagweithiol.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod cynnwys deg o gofnodion cleifion yn fanwl, a'u bod yn dangos bod gofal a thriniaethau deintyddol wedi'u cynllunio a'u darparu mewn modd sy'n sicrhau eu diogelwch.

Roedd ystod eang o bolisïau ar waith yn y practis, a gafwyd gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Roeddent i gyd ar gael yn rhwydd i'r staff i'w cynorthwyo nhw yn eu gwaith.

Serch hynny, gwnaethom nodi nifer o feysydd sydd angen eu gwella o ran y broses ddadheintio sydd ar waith. Gwnaethom hefyd amlygu'r angen i wella’r gwaith o gynnal a chadw'r offer pelydr-X, hyfforddiant staff, a'r systemau sydd ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau/offer brys a chofnodi damweiniau yn y gweithle.

Gwnaeth y canfyddiadau uchod (mewn perthynas â'r broses dadheintio - a adnabyddir fel arall fel glanhau a sterileiddio) arwain at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith AGIC. Roedd hyn yn golygu bod gan y perchennog/darparwr deintyddol saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC ynghylch unrhyw gamau a weithredwyd neu a gynlluniwyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifiwyd. Mae'r darparwr deintyddol wedi cyflwyno ymateb i AGIC, ac ystyriwyd bod ei gynnwys yn rhoi sicrwydd digonol inni bod camau gweithredu priodol a phrydlon wedi'u cymryd gan y tîm deintyddol.

Roedd y prif ddeintydd ym Mhractis Deintyddol Parc Trelai yn gyfrifol am waith rheoli cyffredinol y practis. Fodd bynnag, roedd yn derbyn cymorth gan dîm bach ymroddedig; roedd gan un person gyfrifoldeb ar y cyd dros rai swyddogaethau nyrsio deintyddol ynghyd ag agweddau ar weithredu'r gwasanaeth a ddarperir o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaethau a'u bod yn mwynhau gweithio yn y practis yn fawr iawn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwnaethom dderbyn nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch y gofal a’r driniaeth ddeintyddol a ddarperir gan y practis gan gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC. Gwelsom hefyd fod holl aelodau'r tîm deintyddol yn trin y cleifion, a'i gilydd, â pharch a chynhesrwydd.**

**Serch hynny, gwnaethom nodi'r angen i wella proses gwyno'r gwasanaeth, a datblygu system ar gyfer ceisio safbwyntiau cleifion mewn modd rhagweithiol.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i’r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Gwasanaeth arbennig wedi'i ddarparu'n gyson dros y blynyddoedd'*
>
> *'Rydw i bob tro yn derbyn croeso cynnes, yn cael triniaeth arbennig ac yn gadael yn fodlon iawn'*
>
> *'Rydw i ond yn dymuno y gallwn i fod wedi gweld y deintydd penodol hwn pan oeddwn lawer yn iau. Yn ffodus, mae fy mhlant yn ddigon lwcus i gael y tîm hwn o oedran ifanc. Rwy'n gwybod eu bod nhw'n derbyn y gofal gorau yma'*

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff. Mae hyn oherwydd gwelsom fod y staff yn broffesiynol iawn ond yn gyfeillgar, ac fe’u clywsom yn bod yn gwrtais a moesgar tuag at gleifion yn ystod galwadau ffôn ac yn ystod sgyrsiau wyneb yn wyneb.

Serch hynny, gwelsom fod gan y drysau sy'n arwain i’r ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol banel gwydr clir ynddynt. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion/aelodau o'r cyhoedd adnabod a gweld cleifion sy’n derbyn triniaeth yn hawdd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddisgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau nad yw'r cleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn yr ystafelloedd triniaeth yn***

***weladwy i'r bobl sy'n defnyddio'r coridor sydd ochr yn ochr â'r ddwy ystafell berthnasol.***

Gwelsom fod derbynfa'r practis yn gyfagos i ystafell aros y cleifion. Roedd hyn yn golygu bod staff yn gallu lleihau’r cyfleoedd i bobl sy'n eistedd yn yr ystafell aros glywed y sgyrsiau gyda chleifion unigol ar unrhyw un adeg.

Gofal amserol

Roeddem o'r farn bod y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn da bryd. Cadarnhawyd hyn drwy'r sylwadau a dderbyniwyd ym mhob un o'r 20 holiadur AGIC a dderbyniwyd. Dangosodd trafodaeth fer gyda chlaf a oedd yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad ei fod wedi dod i'r deintydd ar y diwrnod anghywir ar gyfer ei apwyntiad. Serch hynny, roedd y staff wedi gwneud trefniadau er mwyn iddo aros a chael ei weld, ac roedd yn ddiolchgar iawn am hynny.

Gwnaeth sgyrsiau â'r tîm deintyddol gadarnhau bod nifer o slotiau argyfwng ar gael i gleifion bob diwrnod gwaith; gyda phob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod cleifion yn gweld deintydd ar yr un diwrnod, mewn ymateb i'w gofynion.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos yn glir wrth fynedfa'r practis. Roedd y rhif hefyd wedi'i rhestru yn nhaflen wybodaeth i gleifion y practis. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod neges peiriant ateb y practis yn hysbysu cleifion am y rhif cywir i'w ffonio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael cyngor ynglŷn â sut i gael triniaeth mewn argyfwng pan oedd y practis deintyddol ar gau.

Cadw’n iach

Cadarnhaodd archwiliad o sampl bach o gofnodion cleifion y rhoddir gwybodaeth hyrwyddo iechyd i bobl, a chyngor i'w cefnogi nhw i gyflawni a chadw iechyd y geg dda.

Gofal unigol

Gwelsom fod cynllun y lleoliad yn caniatáu i gleifion sydd ag anawsterau symudedd gael mynediad i’r adeilad, a derbyn gofal a thriniaeth ddeintyddol mewn modd diogel. Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff mai dyma oedd yr achos. Serch hynny, roedd ardal fach wedi’i chodi wrth y brif fynedfa (ochr), ac nid oedd y drws yn agor yn awtomatig.

Gwelsom hefyd fod prinder arwyddion er mwyn cynorthwyo'r cleifion i ganfod y toiled. Er bod y gwasanaeth deintyddol yn gweithredu o'r llawr daear yn unig, clywsom glaf yn gofyn lle mae'r toiled. Dylai'r practis ystyried gosod

arwyddion/darluniau mewn ardaloedd priodol yn yr adeilad felly, er mwyn helpu cleifion i’w canfod.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaethau deintyddol y GIG. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i sylw'r practis yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd gweithdrefn gwyno'r GIG wedi'i harddangos yn y dderbynfa, ond nid oedd yn cyfeirio at hawliau'r cleifion i ofyn am gyngor a chefnogaeth gan y cyngor iechyd cymuned lleol pe byddai ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u gofal neu driniaeth. Cytunodd y practis i gynnwys y wybodaeth hon.

Serch hynny, nid oedd proses gwyno ysgrifenedig ar waith i gynorthwyo cleifion sy'n derbyn deintyddiaeth breifat, fel sy'n ofynnol. Daethpwyd â hyn at sylw'r tîm deintyddol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddarparu copi o'i broses a’i weithdrefn gwyno deintyddiaeth breifat i AGIC. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.***

Serch hynny, roedd y practis yn barod i dderbyn ein hawgrym i gynhyrchu'r wybodaeth ynghylch pryderon/cwynion mewn print bras, er mwyn cynorthwyo cleifion i ddeall eu hawliau yn hyn o beth.

Nid oedd system ar waith i gasglu safbwyntiau'r cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Er hynny, dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi gwahodd safbwyntiau gan sampl o gleifion yn y practis yn ddiweddar, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol fel y nodwyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis ddisgrifio'r camau gweithredu mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn casglu sylwadau neu awgrymiadau gan gleifion. Mae hyn er mwyn adnabod a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth a ddarperir, lle bynnag sy'n bosib.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom fod cynnwys 10 o gofnodion y cleifion yn fanwl a'u bod yn dangos bod gofal a thriniaeth ddeintyddol wedi'u cynllunio a'u darparu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch.**

**Roedd hefyd ystod eang o bolisïau ar waith yn y practis, a gafwyd gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Roeddent i gyd ar gael yn rhwydd i'r staff i'w cynorthwyo nhw yn eu gwaith.**

**Serch hynny, gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella o ran y broses ddadheintio sydd ar waith.Gwnaethom hefyd amlygu'r angen i wella'r gwaith o gynnal a chadw'r offer pelydr-X, hyfforddiant staff, y systemau sydd ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau/offer a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaith cofnodi damweiniau yn y gweithle.**

**Arweiniodd y canfyddiadau uchod (o ran y broses ddadheintio'n benodol) at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith AGIC.Roedd hyn yn golygu bod gan y perchennog/darparwr deintyddol saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC ynghylch unrhyw gamau a weithredwyd neu a gynlluniwyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifiwyd.Mae'r darparwr deintyddol wedi cyflwyno ymateb i AGIC, ac ystyriwyd bod ei gynnwys yn rhoi sicrwydd digonol inni bod camau gweithredu priodol a phrydlon wedi'u cymryd gan y tîm deintyddol.**

Gofal diogel

Roedd contract casglu a gwaredu ar wastraff ar waith, ac roeddem yn fodlon ar y trefniadau hynny. Roedd gwastraff clinigol yn aros i gael ei gasglu, ac roedd wedi'i storio mewn ardal ddiogel dan glo tu ôl i'r adeilad.

Serch hynny, gwelsom nad oedd tywelion papur na sychwr dwylo yn nhoiled y staff ar y llawr cyntaf; ac felly roedd yn rhaid i staff ddefnyddio tywel dwylo arferol.  Gwnaethom ganfod wedyn nad oedd daliwr papur toiled, bin pedal nac uned lanweithiol i fenywod ar gael. Nid oedd materion o'r fath yn dilyn y canllawiau atal a rheoli heintiau na chanllawiau gwastraff peryglus.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis hysbysu AGIC ynghylch y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion atal a rheoli heintiau a nodwyd o ran toiled y staff yn y lleoliad.***

Roedd ystafell ddadheintio benodedig yn y practis, lle mae offer yn cael eu glanhau a'u sterileiddio wedi iddynt gael eu defnyddio. Roedd yr ystafell yn lân, yn daclus ac wedi'i dylunio fel bod y llif aer 'brwnt' a 'glân' yn yr ystafell yn dilyn canllawiau arferion gorau, fel y nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 [1]-adolygiad 1.

Gwnaethom archwilio ymhellach i'r broses sydd ar waith o ran dadheintio offer deintyddol a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. O ganlyniad, gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella yn y modd y defnyddir a chynhelir glanhau a sterileiddio offer. Gwnaethom hefyd ganfod nad oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol yn ddiweddar o ran yr elfen bwysig hon o ddarparu gwasanaeth. Caiff manylion canfyddiadau'r arolwg hwnnw eu disgrifio'n llawn yn Atodiad A yr adroddiad hwn, a gwnaethon nhw arwain at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith gan AGIC. Roedd hyn yn golygu bod gan y perchennog/darparwr deintyddol saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC ynghylch unrhyw gamau a weithredwyd neu a gynlluniwyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifiwyd. Mae'r darparwr deintyddol wedi cyflwyno ymateb i AGIC, ac ystyriwyd bod ei gynnwys yn rhoi darparu sicrwydd digonol inni bod camau gweithredu priodol a phrydlon wedi'u cymryd gan y tîm deintyddol.

Rhoddwyd copi i ni o archwiliad rheoli heintiau'r Adran Iechyd, a gwblhawyd yn ystod mis Rhagfyr 2015. Roedd hwn wedi galluogi'r tîm deintyddol i hunanasesu eu practis yn erbyn y canllaw. Serch hynny, nid oedd cynllun gwella wedi'i ddatblygu o ganlyniad i'r gwaith hwnnw. Felly, cynghorwyd y practis i gwblhau'r archwiliad a gysylltir â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a datblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses wella barhaus sy'n ofynnol, yn enwedig yng ngoleuni canfyddiadau ein harolygiad, fel y nodwyd uchod.

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag amrywiaeth o argyfyngau cleifion. Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis. Storiwyd y rhain yn ddiogel. Serch hynny, wedi edrych ar y rhestr wirio fisol ar gyfer cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwelsom nad oedd yn cael ei chwblhau'n aml, ac mae canllawiau cyfredol

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

cyngor dadebru'r DU ar gyfer practisau deintyddol yn awgrymu y dylid cynnal gwiriad wythnosol. Er bod yr holl gyffuriau o fewn eu dyddiad dod i ben, nid oedd y staff yn gwirio bod y diffibriliwr allanol awtomatig[2] yn parhau i fod yn barod i'w ddefnyddio, ac nid oedd dyddiadau dod i ben padiau'r diffibriliwr wedi'u cynnwys ar y rhestr wirio. Er bod y practis yn barod i dderbyn ein sylwadau i wella'r system sydd ar waith ar gyfer gwirio offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys, mae angen mynd i'r afael â'r materion uchod.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis hysbysu AGIC o'r trefniadau diwygiedig sydd ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn sefyllfa o argyfwng, yn unol â chanllawiau dadebru'r DU.***

Rhoddwyd gwybodaeth i ni a oedd yn dynodi bod y staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd. Serch hynny, mae'n debyg nad oedd un deintydd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ers mis Awst 2014. O ystyried bod disgwyl i staff gwblhau hyfforddiant blynyddol ar y pwnc hwn, mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi tystiolaeth i AGIC o hyfforddiant cyfredol ar adfywio cardio-pwlmonaidd ar gyfer un deintydd sy'n gweithio yn y practis.***

Roeddem yn gallu cadarnhau bod aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf ar gael bob amser yn y practis. Serch hynny, nid oedd y person dan sylw wedi mynychu hyfforddiant diweddaru yn ddiweddar, fel sy'n ofynnol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod staff cymorth cyntaf penodedig yn mynychu hyfforddiant diweddaru fel mater o flaenoriaeth, a darparu tystiolaeth eu bod wedi mynychu i AGIC.***

---

[2] Dyfais gludadwy yw diffibriliwr allanol awtomatig, sy'n gwirio rhythm y galon ac yn gallu anfon sioc drydanol i'r galon er mwyn adfywio ei rhythm arferol.

Roedd llyfr damweiniau yn y practis at bwrpas cofnodi digwyddiadau sy'n effeithio ar staff a chleifion. Serch hynny, nid oedd yn y fformat cymeradwy gofynnol, nac yn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data 1998. Cytunodd y practis felly i sicrhau'r dull cywir o gofnodi digwyddiadau o'r fath.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis hysbysu AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod ganddo'r system gywir ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau sy'n digwydd yn y lleoliad.***

Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfun o ran diogelu oedolion a phlant. Serch hynny, nid oedd rhifau cyswllt ar gyfer timau diogelu lleol er mwyn cynorthwyo staff pe byddent angen adrodd ar unrhyw honiadau o gam-drin. Gwnaethom hefyd edrych ar sampl o gofnodion staff, a gwelsom nad oedd y mwyafrif ohonynt wedi derbyn hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant a/neu oedolion yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y lefel briodol o hyfforddiant diogelu plant ac oedolion, er mwyn eu cefnogi yn eu gwaith ac i warchod aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed ac sy'n mynychu'r practis.***

Dangosodd archwiliadau pellach o gofnodion y staff eu bod wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant ar faterion perthnasol a gofynnol yn ystod y 18 mis diwethaf. Serch hynny, roedd yn anodd pennu p'un a oedd maint yr hyfforddiant yn ddigonol i fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, am nad oedd y wybodaeth ar hyfforddiant staff mewn fformat rhesymegol na chronolegol.

Roedd ystod eang o bolisïau ar waith yn y practis, a gafwyd gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Roeddent i gyd ar gael yn rhwydd i'r staff i'w helpu nhw yn eu gwaith.

Gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis. Canfuwyd bod y cyfan yn gyfredol ac yn ddilys, heblaw am un dystysgrif a oedd mewn perthynas â pheiriant pelydr-X. Daethpwyd â hyn at sylw'r tîm deintyddol, a gwnaed trefniadau i wasanaethu'r offer y bore wedi'r arolygiad. Pe na byddai'r practis wedi gweithredu mor brydlon, byddai'r mater hwn wedi arwain at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith gan AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi tystiolaeth gofnodedig i AGIC o wiriad yr offer pelydr-X sydd wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod wedi'r arolygiad.***

Roedd dyfeisiadau cludadwy wedi'u profi yn ystod 2011, ond nid oeddem yn gallu canfod unrhyw brawf pellach ar ôl hynny, nac asesiad risg wedi'i gwblhau, a allai ddangos amlder y gwiriadau yn y dyfodol. Cynghorwyd y tîm deintyddol y byddai'n arfer da i ystyried profion o'r fath yn flynyddol, a chysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am gyngor pellach.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwnaethom ystyried y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis. Yn gyffredinol, cadarnhaodd ein harsylwadau bod y cyfleusterau'n foddhaol; roedd yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn olau gyda digon o le a digon o stoc.

Gofal effeithiol

Roedd y practis yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod cynnwys 10 o gofnodion cleifion yn fanwl a'u bod yn dangos bod gofal a thriniaeth ddeintyddol wedi'u cynllunio a'u darparu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch.

Roedd y practis yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[3] o ran yr amserlenni a argymhellir ar gyfer ymweliadau ail-alw deintyddol. Roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pryd y dylai cleifion drefnu eu hapwyntiad nesaf.

Cadwyd cofnodion deintyddol cleifion yn ddiogel yn y practis deintyddol.

Dangosodd sgyrsiau ag un deintydd ac adolygiad o ddogfennaeth archwilio wedi'i chwblhau fod rhywfaint o bwyslais ar gynnal gwiriadau perthnasol ynglŷn â sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r cleifion. Roedd esiamplau o archwiliadau a welsom yn ystod yr arolygiad hwn yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau a safon y wybodaeth yng nghofnodion y cleifion.

---

[3] Mae canllawiau clinigol deintyddol NICE yn cynorthwyo deintyddion i benderfynu pa mor aml y dylid ail-alw cleifion rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol i anghenion cleifion unigol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gleifion o bob oedran sy'n derbyn gofal sylfaenol gan staff deintyddol y GIG yng Nghymru a Lloegr.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd y prif ddeintydd yng Nghlinig Deintyddol Parc Trelai yn gyfrifol am waith rheoli cyffredinol y practis. Fodd bynnag, roedd yn derbyn cymorth gan dîm bach, ymroddedig; roedd gan un person gyfrifoldeb ar y cyd dros rai swyddogaethau nyrsio deintyddol ynghyd ag agweddau ar weithredu'r gwasanaeth a ddarperir o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn mwynhau gweithio yn y practis yn fawr iawn.**

Mae Clinig Deintyddol Parc Trelai yn wasanaeth deintyddol annibynnol sefydledig. Roedd y prif ddeintydd yn rhan weithredol o redeg a rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda thîm o staff bach a chyfeillgar.

Gwelsom fod staff clinigol yn cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwelsom fod gan y practis ddogfennaeth ddilys ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Gwelsom fod cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff un ai wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn hepatitis B, neu eu bod yn y broses o gwblhau cwrs o frechiadau. Roedd hwn yn ffordd o warchod cleifion a'u hunain rhag haint.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd eu tystysgrifau cofrestriad AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat.[4] Roedd un o'r tystysgrifau yn cynnwys y manylion cyswllt anghywir ar gyfer AGIC. Rhoddwyd ffurflen gais i'r deintydd dan sylw er mwyn gwneud cais am dystysgrif wedi'i diweddaru, yn unol â’r rheoliadau cyfredol.

Nid oedd gan un o'r deintyddion wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i ddyddio yn y tair blynedd diwethaf. Trafodwyd yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn â'r tîm deintyddol.

---

[4] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis deintyddol roi tystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i AGIC ar gyfer un o'r deintyddion, fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat cyfredol.***

O'r pum nyrs ddeintyddol sy'n gweithio yn y practis, roedd un dan hyfforddiant, ac roedd un mewn rôl gyfun fel nyrs ddeintyddol/derbynnydd/rheolwr y practis. Roedd ein harsylwadau ar y diwrnod o'r modd roedd y tîm yn gweithio ar y cyd yn cadarnhau eu bod yn cefnogi ei gilydd yn dda iawn. Gwelsom hefyd eu bod yn defnyddio dull croesawgar a chyfeillgar iawn tuag at gleifion sy'n mynychu'r ddeintyddfa.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio nyrsys deintyddol o asiantaeth weithiau pan nad yw eu staff rheolaidd ar gael. Siaradom ag aelod o'r tîm deintyddol ynghylch y trefniadau sydd ar waith er mwyn gwirio cymhwysedd y nyrsys asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod y practis yn derbyn sicrwydd ar lafar gan yr asiantaeth ynghylch addasrwydd y nyrsys. Fodd bynnag, argymhellwyd bod y practis hefyd yn gofyn am gofnod ysgrifenedig o'r cymwysterau, hyfforddiant a statws y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan eu bod yn defnyddio nyrsys asiantaeth yn y dyfodol, er mwyn sicrhau cadarnhad ysgrifenedig o addasrwydd staff asiantaeth.[5]

Gwelsom fod gan y practis raglen gynefino i sicrhau bod aelodau newydd o’r tîm deintyddol yn gallu ymgyfarwyddo â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau cleifion.

Dywedodd y staff y siaradom â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith, a'u bod yn mwynhau gweithio yn y practis yn fawr. Gwnaethon nhw ddweud hefyd fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal ar adegau, lle roedd modd iddynt godi unrhyw fater o bryder ynghylch y gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o’r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/berthnasol i’r tîm deintyddol. Yn ogystal, dywedodd y staff

[5] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel, ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, drwy gynnal gwiriadau cofnodion troseddol.

wrthym y caiff unrhyw faterion ynghylch gofal a thriniaeth ddeintyddol eu trin yn ddyddiol os oes angen, am eu bod yn dîm mor fach.

Dangosodd trafodaethau â staff nad oedd system ar waith i gynnal arfarniad blynyddol o'u gwaith. Byddai hyn wedi helpu i bennu p'un a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant fydd ei angen yn y dyfodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddisgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn sicrhau bod y staff yn derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith.***

Yn ystod trafodaeth â staff, gwelwyd eu bod yn teimlo’n hyderus i fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Gwelwyd bod polisi chwythu'r chwiban ar waith er mwyn arwain y staff ar sut i godi unrhyw fater o bryder ynghylch cyflenwi gwasanaeth mewn modd cyfrinachol.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghlinig Deintyddol Parc Trelai yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd.  Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau rydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] [7]a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw

---

[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion;
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Clinig Deintyddol Parc Trelai

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Ionawr 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 5 | Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau nad yw cleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn yr ystafelloedd triniaeth yn gallu cael eu gweld gan bobl sy'n defnyddio'r coridor ar hyd ochr y ddwy ystafell dan sylw. | Safon 4.1 | Byddwn yn gosod haen ar baenau gwydr drysau pob un o'r ystafelloedd deintyddol i sicrhau na all pobl yn y coridor weld trwy'r gwydr i mewn i'r ystafell driniaeth. | Mr Kerai | Cyn 27/02/16 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 6 | Mae'n ofynnol bod y practis yn rhoi copi o'i broses a'i weithdrefn ar gyfer cwynion deintyddiaeth breifat i AGIC. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Rheoliad 16 | Rydym wedi cynnwys copi o ddogfen polisi a gweithdrefn y practis ar gyfer cwynion deintyddiaeth breifat i AGIC yn unol â'r cais. Hefyd, fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad hwn, rydym wedi gwella ein poster cwynion GIG sy'n cael ei arddangos i gleifion yn y ddeintyddfa, i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd. | Mr Kerai | Cwblhawyd |
| Tudalen 6 | Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyrchu sylwadau neu awgrymiadau gan y cleifion. Bwriad hyn yw canfod a | Safon 6.3 | Rydym wedi datblygu dogfen arolwg cleifion i gyrchu barn cleifion ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Yn dilyn hyn byddwn | Mr Kerai | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth a ddarperir, lle bynnag y bo'n bosibl. | | yn nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen i'r gwasanaeth a ddarperir ac yn cymryd camau gweithredu pellach i ddatblygu arolygon cleifion yn y dyfodol i ganfod a fu'r camau gweithredu yn fuddiol a nodi unrhyw welliannau pellach sydd eu hangen. | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| | Yn ystod arolygiad AGIC, gwnaethom ymchwilio'r trefniadau ar waith ar gyfer dadheintio offer deintyddol a chydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1). O ganlyniad, gwnaethom nodi'r canlynol: | | Anfonwyd llythyr sicrwydd ar unwaith AGIC at y darparwr/perchennog ar 27 Ionawr 2016 mewn perthynas â chanfyddiadau ein harolwg a oedd yn gysylltiedig â'r broses ar waith ar gyfer | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | A.<br>Mae paragraff 3.25 (tudalen 29) o ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cyfeirio'n amlwg at bwysigrwydd sicrhau bod hylif yr offer uwchsonig yn cael ei gynnal, ei lanhau a'i newid ar adegau addas ac mae paragraff 3.30 (j) yn nodi'r angen i newid yr hylif glanhau offer uwchsonig naill ai pan fydd yn heintiedig iawn, neu ar ddiwedd pob sesiwn clinigol. Fodd bynnag, gwelsom fod y toddiant oedd yn cael ei ddefnyddio'n cael ei newid yn wythnosol. Gall hyn olygu nad yw'r gwaith o lanhau offer uwchsonig mor effeithiol ag arfer; a bod yr hylif a ddefnyddir yn gweithredu fel ffynhonnell croes-heintio | | glanhau a sterileiddio offer deintyddol oedd wedi cael eu defnyddio (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Derbyniodd AGIC ymateb ar 2 Chwefror 2016 a roddodd ddigon o sicrwydd i ni fod camau gweithredu prydlon a phriodol wedi cael eu cymryd gan y tîm deintyddol. | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | B.<br>Gwnaethom ofyn i aelod o'r tîm deintyddol ddisgrifio'r broses o ddadheintio a chawsom nad oedd rhai o'r offer deintyddol nad oeddent yn eu defnyddio bob dydd (a oedd wedi cael eu glanhau a'u dadheintio) yn cael eu rhoi mewn pecynnau wedi'u selio a'u dyddio, yn barod i gael eu defnyddio yn y dyfodol. Yn hytrach, roeddent yn cael eu gosod ar hambyrddau metal wedi'u gorchuddio. Nid yw hyn yn gyson â pharagraff 4.28 o ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a gallai arwain at ail-halogi'r offer ymhellach.<br><br>C.<br>Gwelsom nad oedd offer deintyddol oedd wedi cael eu defnyddio yn cael eu trochi | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | mewn dŵr neu eu chwistrellu gydag ewyn yn syth i gynnal amgylchedd llaith, y credir sy'n ddefnyddiol i gynorthwyo dadheintio'n hwyrach. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl i sylweddau deintyddol fel smentiau galedu ar yr offer, gan ei gwneud yn anoddach i'w prosesu (paragraff 3.5)<br><br>D.<br>Gwelsom y broses oedd ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol oedd wedi cael eu defnyddio a gwelsom eu bod yn cael eu sgwrio dan ddŵr rhedegog yn hytrach na chael eu trochi mewn dŵr yn y sinc pwrpasol gyda glanhawr. Golygai hyn nad oedd yr aelod o staff dan sylw'n cynhyrchu'r lleiaf posibl o aerosol yn unol â chanllawiau Memorandwm | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Technegol Iechyd Cymru (paragraff 3.30 (a))<br><br>E.<br>Gwnaethom edrych ar y llyfr cofnodion ar gyfer gwirio'r offer awtoclaf a'r glanhawr uwchsonig a gwelsom nad oedd y cofnodion yn ddigonol.<br><br>i. Yn fwy penodol, nid oedd tystiolaeth bod staff yn goruchwylio ac yn dilysu cylch cyntaf yr awtoclaf bob dydd fel sy'n ofynnol. Yn ogystal, roedd y staff yn cydnabod nad oeddent yn gwneud hyn.<br><br>ii. Roedd y practis yn cydnabod nad oedd erioed wedi defnyddio prawf stribed protein i wirio pa mor effeithlon oedd yr offer uwchsonig | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | (paragraff 14.4, tudalen 68). Gall hyn arwain at bresenoldeb gweddillion protein, sy'n peryglu'r broses ddadheintio<br><br>iii. Roedd y practis yn cwblhau profion ffoil ar y glanhawr uwchsonig, yn wythnosol fel arfer, ond mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn nodi y dylid cwblhau gwiriadau o'r fath bob tri mis. Hefyd, nid oedd y practis yn dilyn y dechneg gywir (paragraff 15.9, tudalen 70).<br><br>F.<br>Nid oedd canllawiau ysgrifenedig i staff eu dilyn o ran gweithdrefnau dechrau a | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | diwedd y dydd mewn perthynas â'r ystafell ddadheintio, na'r offer oedd yn cael eu defnyddio yn yr ardal honno.<br><br>G.<br>Wrth arsylwi ar aelod o staff yn glanhau offer oedd wedi cael eu defnyddio, nid oedd yr unigolyn dan sylw'n gwisgo ffedog na miswrn i amddiffyn ei hun ac eraill rhag croes-heintio.<br><br>H.<br>Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad yr Adran Iechyd ar atal a rheoli heintiau yn ystod mis Rhagfyr 2015. Fodd bynnag, nid oedd cynllun gweithredu wedi cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r archwiliad hwnnw<br>Dangosodd sgwrs gyda rhai | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | aelodau o staff ac archwiliad byr o gofnodion hyfforddiant staff nad oeddent wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf | | | | |
| Tudalen 11 | Mae angen i'r practis hysbysu AGIC am y trefniadau diwygiedig ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn triniaeth mewn argyfwng, yn unol â chanllawiau dadebru'r DU. | Safon 2.6 a 2.9 | Mae hyfforddiant mewnol wedi cael ei drefnu'n ddi-oed ar gyfer yr holl staff mewn perthynas â'r mater hwn i sicrhau bod yr holl feddyginiaeth a ddefnyddir mewn argyfwng, ocsigen a ddefnyddir mewn argyfwng a'r cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig yn cael eu gwirio'n wythnosol yn unol â chanllawiau cyngor dadebru'r DU a bydd hyn yn destun archwiliad yn y | Mr Kerai | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dyfodol. | | |
| Tudalen 11 | Mae'n ofynnol bod y practis yn rhoi tystiolaeth i AGIC i o hyfforddiant cyfredol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd ar gyfer un deintydd sy'n gweithio yn y practis.<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6 a 6.6.6 | Safon 7.1 | Mae'r deintydd oedd angen cwblhau hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd wedi gwneud hynny ac mae tystysgrif yn amgaeedig. | Mr Kerai | Cwblhawyd |
| Tudalen 11 | Mae'n ofynnol bod y practis yn sicrhau bod staff cymorth cyntaf a enwir yn mynychu hyfforddiant diweddaru ar unwaith ac yn rhoi tystiolaeth i AGIC eu bod wedi mynychu. | Safon 7.1 | Mae'r unigolyn cymorth cyntaf a enwir wedi cofrestru ar gwrs hyfforddiant cymorth cyntaf. | Mr Kerai | Cwblhawyd y cofrestriad. Aros am y cwrs a'r dystysgrif. |
| Tudalen 12 | Mae'n ofynnol bod y practis yn hysbysu AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod system gywir ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau sy'n digwydd yn yr adeilad. | Safon 2.1 | Mae ein llyfr damweiniau wedi cael ei newid ac mae llyfr damweiniau cyfredol yn cael ei ddefnyddio i gydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data. | | Cwblhawyd |
| Tudalen | Mae'n ofynnol bod y practis yn | Safon 2.7 | Mae staff y practis | Mr Kerai | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | rhoi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu plant ac oedolion priodol i'w cynorthwyo yn eu gwaith ac i amddiffyn aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed sy'n mynychu'r practis. | | wedi cwblhau hyfforddiant POVA (tystysgrifau ynghlwm). Mae'r staff hefyd wedi cofrestru ar gwrs i ddarparu hyfforddiant diweddaru mewn diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed. | | hyfforddiant POVA Hyfforddiant arall i'w gwblhau cyn 27/02/16 |
| Tudalen 12 | Mae'n ofynnol bod y practis yn rhoi tystiolaeth gofnodedig o'r gwiriad offer pelydr-X a oedd wedi ei drefnu ar gyfer y diwrnod wedi'r arolygiad. | Safon 2.1 | Mae'r dystysgrif arolygu ynghlwm | Mr Kerai | Cwblhawyd |
| Tudalen 13 | Mae'n ofynnol bod y practis yn hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i roi sylw i'r materion atal a rheoli heintiau a nodwyd mewn perthynas â chyfleusterau toiledau'r staff yn yr adeilad. | Safon 2.4 | Mae tywelion papur, daliwr papur toiled, bin pedal ac uned glanweithdra merched yn cael eu darparu yn nhoiledau'r staff yn awr yn ôl y gofyn. | Mr Kerai | Cwblhawyd |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| Tudalen 16 | Mae'n ofynnol bod y practis | Rheoliad 13(3)(c), Atodlen 2 | Mae cais am wiriad | Mr Kerai | Cyflwynwyd y cais. Aros i dderbyn y |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | deintyddol yn rhoi tystiolaeth i AGIC o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o'r deintyddion, fel y nodwyd yn yr arolygiad hwn. Mae hyn yn unol ag Atodlen 2 y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat cyfredol. | Paragraff 2 | gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gyflwyno gydag AGIC fel y corff ambarél ac rydym yn aros i dderbyn y dystysgrif. Bydd y dystysgrif yn cael ei hanfon i AGIC cyn gynted ag y byddwn yn ei derbyn. | | dystysgrif |
| Tudalen 17 | Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod staff yn derbyn arfarniad blynyddol ffurfiol o'u gwaith.<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1 | Safon 7.1 | Mae arfarniad staff blynyddol ar waith yn awr i'r holl staff er mwyn helpu i nodi a fu hyfforddiant blaenorol yn effeithiol a beth yw'r anghenion hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi datblygu dogfen arfarnu staff i gofnodi hyn (amgaeedig). | Mr Kerai | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..................Mr..Kerai............................................................

**Teitl:** ...................................................................................................

**Dyddiad:** ..................17./.02./.16.........................................................